Medr

Y Comisiwn Addysg Drydyddol ac Ymchwil
Commission for Tertiary Education and Research

# Sgiliau Byw'n Annibynnol

## Manyleb y Rhaglen

Mae'r fersiwn hon o'r fanyleb yn ddilys hyd nes i'r sector AB gael gwybod fel arall

Cyhoeddwyd ym mis Tachwedd 2025

Yn berthnasol o Flwyddyn Academaidd 2026/27

This document is also available in English | Mae'r ddogfen hon hefyd ar gael yn Saesneg

**www.medr.cymru**

Noddir gan Lywodraeth Cymru
Sponsored by Welsh Government

## Cynnwys


1. Cyflwyniad ..... 3
2. Trosolwg o'r cwricwlwm SBA ..... 3
3. Gofynion rhaglen unigol ..... 4
4. Cyllid rhaglenni ..... 5
5. Gofynion cyflwyno data ..... 5
   - Codau rhaglen ..... 5
   - Cofnodi gweithgarwch heb ei achredu ..... 5
     - Gweithgarwch craidd ..... 5
     - Prif weithgarwch ..... 6
     - Unedau cymhwyster gweithgareddau dysgu asesadwy eraill (CLIF) ..... 6
     - Gweithgaredd profiad cysylltiedig â gwaith ..... 6
6. Monitro a deilliannau dysgu ..... 6
7. Manylion cyswllt ..... 7
8. Atodiadau ..... 8
   - A. Manyleb Rhaglen Llwybr 1 ..... 8
   - B. Manyleb Rhaglen Llwybr 2 ..... 10
   - C. Manyleb Rhaglen Llwybr 3 ..... 13
   - D. Manyleb Rhaglen Llwybr 4 ..... 17
   - E. Dysgwyr o Raglenni Prif Ffrwd sy'n cael Mynediad i ddarpariaeth Llwybr 4 ..... 20

## 1. Cyflwyniad

Mae'r fanyleb rhaglen hon yn nodi'r model darparu ar gyfer rhaglenni Sgiliau Byw'n Annibynnol (SBA) amser llawn. Mae'n rhoi trosolwg o'r pwrpas a'r deilliannau ynghyd â'r cydrannau sy'n ffurfio pob rhaglen SBA.

Mae'r fanyleb hefyd yn manylu ar y gofynion ar gyfer cofnodi'r rhaglenni, a'u gweithgareddau dysgu cysylltiedig, ar Gofnod Dysgu Gydol Oes Cymru (LLWR).

## 2. Trosolwg o'r cwricwlwm SBA

Datblygwyd y cwricwlwm SBA mewn ymateb i'r argymhellion a nodir yn Adroddiad Thematig Estyn 2017 ac mae pob rhaglen wedi'i chynllunio i ddarparu dull ymarferol o ennill a chadarnhau sgiliau, er mwyn paratoi dysgwyr ar am fywyd fel oedolyn. Mae'r manylebau wedi'u diweddaru ymhellach i adlewyrchu'r newidiadau cychwynnol sydd eu hangen, a amlygwyd yn Adroddiad Thematig Estyn 2025.

I danategu'r cwricwlwm, ceir ymagwedd at ddarpariaeth sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn. Cydnabyddir bod dysgu ac addysgu ar ei fwyaf effeithiol pan fydd yn seiliedig ar anghenion, diddordebau a dyheadau'r dysgwyr eu hunain.

Ceir pedair rhaglen ddysgu amser llawn:

**Llwybr 1**
**Llwybr 2**
**Llwybr 3**
**Llwybr 4**

Mae Llwybrau SBA wedi'u hadeiladu o amgylch cwricwlwm craidd sy'n seiliedig ar bedwar conglfaen:

**Iechyd a Lles**
**Cyflogadwyedd**[1]
**Byw'n Annibynnol**
**Cynhwysiant Cymunedol**

Dylid teilwra'r cynnwys o ran cyfathrebu, llythrennedd, rhifedd a llythrennedd digidol i gyd-fynd â'r deilliannau a'r targedau a fwriedir i bob dysgwr. Rhaid i bob darpariaeth ganolbwyntio ar yr unigolyn, gyda'r cwricwlwm wedi'i gynllunio o amgylch anghenion unigol y dysgwr a'r targedau a amlinellir yn ei Gynllun Datblygu Unigol (CDU). Dylai sefydliadau hefyd ystyried datblygu sgiliau ehangach mewn rhaglenni fel cam-drin gan gymheiriaid, urddas mislif, a'r Gymraeg a diwylliant Cymru. Rhaid addasu'r rhaglenni hyn i fodloni anghenion amrywiol y dysgwyr ar bob Llwybr. Rhaid i sefydliadau sicrhau y cynhelir asesiadau risg a bod yswiriant priodol yn weithredol ar gyfer unrhyw brofiad gwaith oddi ar y safle a gynhelir yn rhan o Brofiad Cysylltiedig â Gwaith neu o dan y gonglfaen Cyflogadwyedd.

[1]Nid yw Llwybr 1 yn cynnwys Cyflogadwyedd gan fod Medr yn cydnabod na fydd hyn yn briodol i bob dysgwr ar y Llwybr hwn.

Rhaid i bob darpariaeth fod yn seiliedig ar gyrchfan, gan gadw ymagwedd at ddarpariaeth sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn. Lle bynnag y bo modd, dylai dysgwyr gymryd rhan weithredol yn y broses o nodi a llywio eu cyrchfannau hirdymor. Rhaid i'r gwaith cynllunio ddechrau drwy ystyried y sgiliau a'r wybodaeth sydd eu hangen ar gyfer camau nesaf tebygol y dysgwyr, gan sicrhau eu bod wedi'u paratoi am fywyd ar ôl y coleg. Rhaid teilwra rhaglenni i fodloni anghenion a dyheadau unigol pob dysgwr, gyda deilliannau wedi'u diffinio'n glir ac yn seiliedig ar y pedwar conglfaen, sy'n gysylltiedig â CDU y dysgwyr. Dylid cyd-gynllunio'r deilliannau hyn â'r dysgwr a'u trefnu ar amserlenni realistig fel bo modd datblygu ac ymwreiddio sgiliau a gwybodaeth. Er y gallai rhai dysgwyr elwa ar ddysgu/cymwysterau achrededig (a elwir o hyn allan yn gymwysterau) yn rhan o'u darpariaeth, dylai'r rhain fod yn eithriad. Ni ddylid cynnwys dysgu/cymwysterau achrededig mewn cynlluniau cwricwlwm nes bod y dysgwr wedi cwblhau asesiad sylfaenol a chyfleu ei ddyheadau hirdymor.

Mae'n hanfodol cael proses asesu sylfaenol effeithiol er mwyn sicrhau bod y ddarpariaeth yn addas. Rhaid i'r asesiad hwn ystyried anghenion, gallu a dyheadau'r dysgwr, a lle bo gan ddysgwr CDU, dylid ystyried hyn i gefnogi'r broses asesu sylfaenol. Dylai ddefnyddio gwybodaeth o leoliadau addysg blaenorol, gan gynnwys dogfennau statudol, a chynnwys mewnbwn gan y dysgwr, a'i rieni / gofalwyr (lle bo'n briodol). Gall Gwasanaethau Plant ac Oedolion a/neu'r Bwrdd Iechyd Lleol roi mewnwelediadau ychwanegol. Dylai'r asesiad sylfaenol ganolbwyntio ar ddeilliannau, gan nodi'r sgiliau y mae angen i'r dysgwr eu datblygu er mwyn cyrraedd ei gyrchfan ddymunol.

Rhaid cael system hefyd i bennu targedau clir, unigol, a arweinir gan y dysgwr. Dylai targedau fod yn briodol, wedi'u cyfyngu gan amser ac yn ddigon heriol i hyrwyddo cynnydd ystyrlon. Dylai rhaglenni fod yn ddigon hyblyg i gynnwys addasiadau i dargedau a gweithgareddau yn ôl yr angen. Dylid trafod llwybrau dilyniant dysgwyr ar ddechrau'r rhaglen, gan osod cerrig milltir clir i drosglwyddo o SBA i gyrchfannau priodol. Er nad oes terfyn penodol ar hyd y rhaglen, rhaid i ddysgwyr wneud cynnydd ystyrlon tuag at dargedau clir a ysgogir gan ddeilliannau, sy'n gysylltiedig â nodau hirdymor, er mwyn parhau â'r SBA. Dylid cofnodi a chymedroli cynnydd tuag at y targedau hyn drwy ddefnyddio dulliau sicrhau ansawdd dibynadwy, fel Cydnabod a Chofnodi Cynnydd a Chyflawniad.

## 3. Gofynion rhaglen unigol

Mae manylebau rhaglen manwl ar gyfer y 4 Llwybr wedi'u hatodi yn Atodiad A-D.

Mae'r Fanyleb hon hefyd yn rhan o'r Cytundeb rhwng sefydliadau addysg bellach (SABau) a Gweinidogion Cymru ar gyfer darparu a chyllido rhaglen SBA. Rhaid ichi sicrhau bod eich darpariaeth SBA yn cadw at Fanyleb y Rhaglen

Rhaid i bob dysgwr sydd wedi cofrestru ar raglen SBA sydd â hawl statudol i gael CDU gael CDU ar waith o fewn y terfyn amser cytunedig ar ôl ymrestru. Nid oes angen CDU i wneud cais am raglen SBA, ac ni chaiff SABau ddefnyddio'r ffaith nad oes gan ddysgwr CDU fel rhwystr i fynediad. Cyfrifoldeb y SAB yw asesu anghenion y dysgwr a sicrhau bod CDU yn cael ei ddatblygu ar ôl i'r dysgwr ddechrau'r rhaglen, os nad oedd un eisoes yn ei le. Mae'n bwysig egluro **nad yw** Saesneg fel Ail Iaith yn golygu bod angen darpariaeth o fewn rhaglen SBA.

## 4. Cyllid rhaglenni

Yn 2021/22, cyflwynwyd un gyfradd gyllido ar gyfer yr holl ddarpariaeth SBA amser llawn. Ceir hyd i'r gyfradd yn y Cyfeiriadur Rhaglenni. Fe'i cyflwynwyd yn dilyn adolygiad o'r cyllid ar gyfer y maes dysgu SBA, a gynhaliwyd rhwng mis Tachwedd 2019 a mis Ionawr 2020.

Cafodd yr adolygiad ei lywio gan wybodaeth a chyngor ar lefelau staffio a chostau cyflawni a gyflwynwyd gan SAB. Mae'r gyfradd gyllido yn adlewyrchu cost gyfartalog cyflwyno rhaglenni SBA ar draws y sector ac yn seiliedig ar gostau staff dysgu ac addysgu craidd, ynghyd â chodiadau ar gyfer costau cynnal adrannol a gorbenion cyffredinol eraill. Mae un gyfradd gyllido gyffredinol yn sicrhau bod cyllid yn cael ei ddosbarthu'n fwy teg, a bod gweithgarwch SBA yn cael ei gofnodi'n fwy manwl gywir.

## 5. Gofynion cyflwyno data

Bydd Medr yn defnyddio data o Gofnod Dysgu Gydol Oes Cymru (LLWR) i fonitro darpariaeth rhaglenni a deilliannau dysgu ar gyferSBA. Yn unol â'r amodau a nodir yn y Telerau ac Amodau Cyllido, rhaid i sefydliadau sicrhau y cyflwynir data yn brydlon ac yn y fformat cywir.

Mae Llawlyfr Cefnogi Defnyddwyr LLWR yn nodi’r canllawiau y mae'n rhaid i sefydliadau eu dilyn wrth gyflwyno data LLWR ar gyfer y flwyddyn academaidd gyfredol.

### *Codau rhaglen*

Dylid defnyddio'r codau rhaglen a ganlyn:

| | |
|---|---|
| **Llwybr 1** | 1401AXXB |
| **Llwybr 2** | 1401BXXB |
| **Llwybr 3** | 1401CXXB |
| **Llwybr 4** | 1401DXXB |

### *Cofnodi gweithgarwch heb ei achredu*

Gan y dylai rhaglenni SBA ganolbwyntio ar fodloni anghenion unigol dysgwyr, bydd y rhan fwyaf o'r ddarpariaeth, os nad y cyfan, yn ddarpariaeth heb ei hachredu. Dylai “Craidd” rhaglen heb ei hachredu gynnwys datblygu sgiliau o dan y pedwar conglfaen. Os yw hynny'n briodol i ddyheadau dysgwyr unigol, gellir defnyddio achrediad i gefnogi datblygiad sgiliau dysgwyr. Dylai mwyafrif pob rhaglen ddod o dan “Craidd” (LA47 = 04).

Gofynnir i SABau ddefnyddio'r confensiynau codio canlynol:

*Gweithgarwch craidd*

Dylid cofnodi dysgu na ellir ei asesu sy'n dod o dan bedwar conglfaen SBA yn LA06 gan ddefnyddio'r fformat canlynol:

| | |
|---|---|
| **Llwybr 1** | LCLLILP1 |
| **Llwybr 2** | LCLLILP2 |
| **Llwybr 3** | LCLLILP3 |
| **Llwybr 4** | LCLLILP4 |

Nid oes codau gweithgarwch penodol ar gyfer llythrennedd a rhifedd gan y byddem yn disgwyl i'r rhain gael eu hymgorffori yn y rhaglen, gan ymateb i anghenion dysgwyr unigol. Os yw'n berthnasol, gall ddilyn cymwysterau Sgiliau Hanfodol. Dylai'r penderfyniad i astudio am gymhwyster mewn llythrennedd a rhifedd fod yn gysylltiedig â chamau nesaf y dysgwyr a'u dyheadau am y dyfodol. Os bydd dysgwr yn dilyn cymhwyster Sgiliau Hanfodol, dylid cofnodi hynny fel Craidd drwy ddefnyddio'r rhif QAN perthnasol ar LA06.

*Prif weithgarwch*

I gofnodi gweithgarwch yn LA47 gyda “5” (Prif), rhaid i gymhwyster fodoli yng nghronfa ddata Cymwysterau Cymru. Ar gyfer rhaglenni SBA heb eu hachredu, ni fyddem yn disgwyl gweld unrhyw weithgarwch wedi'i gofnodi fel Prif.

Dylid cofnodi unrhyw unedau cymhwyster neu weithgareddau dysgu asesadwy eraill sy'n gysylltiedig â datblygu sgiliau fel CLIF.

*Unedau cymhwyster gweithgareddau dysgu asesadwy eraill (CLIF)*

Dylid cofnodi unedau cymhwyster neu weithgareddau dysgu asesadwy eraill (h.y. LA40=1) yn LA47 gyda “06” (CLIF) a’u codio yn unol â’r canllawiau yn LA06 gan ddefnyddio’r fformat*LTQQXXXX*. Rhaid i weithgarwch asesadwy fod yn berthnasol i anghenion y dysgwr unigol, h.y. wedi'i gysylltu'n glir â chyflawni canlyniad cytunedig.

Yn unol â'r canllawiau yn LA06, defnyddiwch y fformat canlynol:

| | |
|---|---|
| LCCC*XXXX* | Ar gyfer unedau OCN |
| LCKK*XXXX* | Ar gyfer gweithgareddau galwedigaethol |
| LCLL*XXXX* | Ar gyfer gweithgareddau analwedigaethol |

Dylai'r dynodwr *XXXX* adlewyrchu'r conglfaen SBA, felly:

| | |
|---|---|
| HW*NN* | Ar gyfer gweithgareddau o dan y conglfaen Iechyd a Lles |
| EM*NN* | Ar gyfer gweithgareddau o dan y conglfaen Cyflogadwyedd |
| IL*NN* | Ar gyfer gweithgareddau o dan y conglfaen Byw'n Annibynnol |
| CI*NN* | Ar gyfer gweithgareddau o dan y conglfaen Cynhwysiant Cymunedol |

Yn yr achos hwn byddai *NN* yn rhif i wahaniaethu rhwng dau nod dysgu o'r un math.

*Gweithgaredd profiad cysylltiedig â gwaith*

Dylid cofnodi profiad cysylltiedig â gwaith (WRE) sy'n digwydd y tu allan i'r amgylchedd AB o dan WRE gan ddefnyddio'r fformat “LCKKEMWE”.

## 6. Monitro a deilliannau dysgu

Bydd y dull monitro yn canolbwyntio ar gydymffurfio â holl fanylebau'r rhaglen. Mae rhaglenni SBA yn parhau i fod y tu hwnt i'r mesurau perfformiad. Rhaid i sefydliadau gwblhau eu hunanasesiadau o fewn fframwaith RARPA i fonitro llwyddiant eu rhaglenni.

Gall Medr ofyn am weld yr hunanasesiadau er mwyn cael sicrwydd ynghylch ansawdd y ddarpariaeth.

## 7. Manylion cyswllt

Os oes gennych unrhyw ymholiadau'n gysylltiedig â chynnwys Fanyleb Rhaglen hon, cysylltwch â Medr yn BuddsoddiadaMonitro@medr.cymru.

## 8. Atodiadau

### *A. Manyleb Rhaglen Llwybr 1*

Medr
Y Comisiwn Addysg Drydyddol ac Ymchwil
Commission for Tertiary Education and Research

Ariennir gan Lywodraeth Cymru
Funded by Welsh Government

| Enw'r rhaglen | Llwybr 1 |
|---|---|
| Codau Rhaglen | 1401AXXB |
| Maes Sector Pwnc | Sylfeini ar gyfer Dysgu a Bywyd |

| Amlinelliad o bwrpas a deilliannau'r rhaglen |
|---|
| Mae Llwybr 1 yn cefnogi'r sbectrwm ehangaf o anghenion dysgwyr a gellir ei rannu'n ddwy garfan:<br>• dysgwyr nad ydynt ond yn gallu dod ar draws gweithgareddau a phrofiadau, gan roi ymatebion atgyrch.<br>• dysgwyr sy'n cyfathrebu â geirfa gynyddol, yn gwrando, yn ymateb ac yn dilyn cyfarwyddiadau syml, ac a allai fod yn dechrau adnabod ac ysgrifennu geiriau syml.<br><br>Bydd angen cefnogaeth sylweddol ar ddysgwyr ar Lwybr 1 drwy gydol eu rhaglen astudio i hwyluso cynnydd a sicrhau eu lles a'u diogelwch. Mae'n debygol y bydd y lefel hon o gefnogaeth yn parhau ar hyd eu hoes. Dylai'r rhaglen felly ganolbwyntio ar gefnogi dysgwyr i ddatblygu sgiliau i fod mor annibynnol â phosibl, gyda phwyslais penodol ar alluogi dysgwyr i wneud dewisiadau priodol, gan arwain at ymdeimlad mwy o ymreolaeth.<br><br>Mae tri o'r pedwar conglfaen dysgu yn darparu Craidd y rhaglen:<br>• Iechyd a Lles<br>• Byw'n Annibynnol<br>• Cynhwysiant Cymunedol<br><br>Dylai'r cwricwlwm fabwysiadu dull ymarferol o gynnal, datblygu a chyfnerthu sgiliau yn y meysydd hyn. Mae dulliau synhwyraidd yn arbennig o werthfawr i ddysgwyr ar y llwybr hwn. Dylid cael pwyslais cryf ar wella sgiliau cyfathrebu a rhyngweithio, gan gynnwys defnyddio technolegau cynorthwyol, i baratoi dysgwyr am fywyd fel oedolyn. Dylai hyrwyddo'r gallu i wneud dewisiadau priodol barhau i fod yn ffocws canolog drwy gydol y rhaglen.<br><br>Drwy astudio ar y rhaglen hon, bydd dysgwyr yn cael cefnogaeth i:<br><br>• Gyfrannu at gynllunio eu rhaglen unigol hyd eithaf eu gallu, a hynny mewn ffordd sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn. Bydd hyn yn fodd i nodi eu cryfderau presennol a meysydd lle gellir datblygu sgiliau perthnasol.<br>• Cytuno ar dargedau unigol realistig ar gyfer eu rhaglen ddysgu. |

- Cymryd rhan mewn gweithgareddau dysgu ymarferol ym mhob un o dri maes y fframwaith SBA.
- Gwneud cynnydd ar eu targedau unigol drwy weithgareddau dysgu sy'n berthnasol i'w bywydau presennol, wrth bontio i fod yn oedolyn, ac i'w dyheadau am y dyfodol.
- Gwneud cynnydd ar dargedau unigol sy'n cynnal, yn datblygu ac yn gwella sgiliau cyfathrebu drwy weithgareddau sydd wedi'u hymwreiddio yn y fframwaith.
- Cyfrannu at adolygiadau o'u dysgu sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn, er mwyn nodi'r cynnydd a wnaed yn erbyn targedau unigol, a phennu'r camau nesaf. Dylid defnyddio adolygiadau'r CDU i gefnogi'r broses hon.

Ni ddylai'r rhaglen hon gynnwys achrediad; yn lle hynny, bydd deilliannau cynnydd yn seiliedig ar gyrraedd targedau unigol yn gysylltiedig â pharatoi am fywyd fel oedolyn.

## Cyrchfannau Tebygol

Bydd dysgwyr yn cael sgiliau hunan-eiriolaeth, yn gallu gwneud dewisiadau a mynegi dymuniadau ac anghenion drwy ddulliau cyfathrebu wedi'u personoli. Bydd y sgiliau hyn yn canolbwyntio ar ryngweithio o fewn y cartref a'u cymuned agos. Bydd gan ddysgwyr y sgiliau i gwblhau tasgau yn eu cartref, gyda goruchwyliaeth barhaus.

Ac ystyried eu lefel o angen, bydd angen cefnogaeth sylweddol a pharhaus ar ddysgwyr ym mhob agwedd ar fywyd. Gan hynny, gofal cymdeithasol a/neu ddarpariaeth dydd yw'r cyrchfannau mwyaf tebygol ar ôl gadael y coleg.

## Gofynion y rhaglen: Craidd

Mae Craidd y rhaglen wedi'i adeiladu o amgylch tri o bedwar conglfaen SBA a dylid ei gynllunio'n bwrpasol i gynnig gweithgareddau a fydd yn helpu dysgwyr i ddatblygu sgiliau byw i'r dyfodol. Rhaid i'r cwricwlwm roi digon o amser i ddysgwyr ennill y sgiliau hyn yn realistig a'u hymwreiddio mewn modd ystyrlon. Mae cyfathrebu a rhyngweithio yn ganolog i'r profiad dysgu, gyda chyfleoedd i ddatblygu ac ymarfer y sgiliau hyn – ochr yn ochr â defnyddio technoleg gynorthwyol – wedi'u hintegreiddio drwy pob un o'r conglfeini.

## Gofynion y rhaglen: Profiad Cysylltiedig â Gwaith

Nid yw Llwybr 1 yn cynnwys elfen Profiad Cysylltiedig â Gwaith. Dylid cefnogi dysgwyr i ymgysylltu â'u cymunedau lleol mewn lleoliadau sy'n briodol ar gyfer pob dysgwr.

## Gofynion y rhaglen: Cymwysterau neu Weithgareddau Dysgu Asesadwy Eraill

Ni fydd cymwysterau'n briodol i ddysgwyr ar y Llwybr hwn. Dylid gosod pob targed yn seiliedig ar anghenion dysgwyr, eu CDUau a'u dyheadau am y dyfodol yn seiliedig ar yr asesiad sylfaenol.

| Cyfanswm Oriau Contract dan Arweiniad ar gyfer y Rhaglen | 650 |
|---|---|

## *B. Manyleb Rhaglen Llwybr 2*

| | |
|---|---|
| Enw'r rhaglen | Llwybr 2 |
| Codau Rhaglen | 1401BXXB |
| Maes Sector Pwnc | Sylfeini ar gyfer Dysgu a Bywyd |

**Amlinelliad o bwrpas a deilliannau'r rhaglen**

Gall dysgwyr ar Lwybr 2 fod ag amryw o gyflyrau sy'n achosi amhariadau deallusol neu wybyddol sylweddol. Gallant hefyd brofi anawsterau'n gysylltiedig â symudedd, cydsymud, cyfathrebu a chanfyddiad. Bydd mwyafrif y dysgwyr hyn wedi bod i ysgol arbennig yn hytrach na lleoliad addysg prif ffrwd. Mewn achosion lle bo dysgwyr wedi'u haddysgu mewn amgylcheddau prif ffrwd, byddant wedi dilyn cwricwlwm wedi'i gynllunio'n arbennig ar eu cyfer ac wedi'i gefnogi gan ymyriadau dwys.

Mae'n debygol y bydd angen cefnogaeth gynhwysfawr ar ddysgwyr ar Lwybr 2 ar draws pob agwedd ar fywyd coleg, gan gynnwys dysgu, annibyniaeth a chyfathrebu. Efallai y bydd gan lawer ohonynt hefyd anghenion gofal personol. Mae'r gefnogaeth hon yn hanfodol nid yn unig i hwyluso cynnydd ond hefyd i ddiogelu eu lles a sicrhau amgylchedd dysgu diogel a chynhwysol.

Mae'r pedwar conglfaen dysgu yn darparu Craidd y rhaglen:

- Iechyd a Lles
- Cyflogadwyedd
- Byw'n Annibynnol
- Cynhwysiant Cymunedol

Mae'r cwricwlwm yn mabwysiadu dull ymarferol o ddatblygu a chadarnhau sgiliau ym mhob un o'r meysydd hyn, gyda'r nod o baratoi dysgwyr am fywyd fel oedolyn.

Mae sgiliau cyfathrebu, llythrennedd, rhifedd a llythrennedd digidol yn rhannau annatod o'r profiad dysgu. Mae cyfleoedd i ddatblygu ac ymarfer y sgiliau hyn wedi'u hymgorffori ym mhob un o'r pedwar conglfaen, gan sicrhau bod dysgwyr yn adeiladu ar y cymwyseddau sydd eu hangen ar gyfer mwy o annibyniaeth a chyfranogiad gweithredol yn eu cymunedau

Drwy astudio ar y rhaglen hon, bydd dysgwyr yn cael cefnogaeth i:

- Cyfrannu at gynllunio rhaglen unigol iddynt hwy eu hunain sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn, gan nodi eu cryfderau presennol a meysydd lle gellir datblygu sgiliau perthnasol o fewn fframwaith y pedwar conglfaen.
- Cytuno ar dargedau unigol realistig ar gyfer eu rhaglen ddysgu.

- Cymryd rhan mewn gweithgareddau dysgu ymarferol ym mhob maes o fewn y fframwaith pedwar conglfaen.
- Gweithio i wneud cynnydd ar eu targedau unigol drwy weithgareddau dysgu sy'n berthnasol i'w bywydau presennol, wrth bontio i fod yn oedolyn, ac i'w dyheadau am y dyfodol.
- Gweithio i wneud cynnydd ar dargedau unigol sy'n cynnal, yn datblygu ac yn gwella sgiliau cyfathrebu, llythrennedd, rhifedd a llythrennedd digidol drwy weithgareddau sydd wedi'u hymwreiddio o fewn y fframwaith pedwar conglfaen.
- Cymryd rhan mewn adolygiadau o'u dysgu sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn, gan nodi'r cynnydd a wnaed yn erbyn targedau unigol a chytuno ar y camau nesaf. Dylid defnyddio adolygiadau'r CDU i gefnogi'r broses hon.

Nid yw achrediad yn ganlyniad pwysig nac angenrheidiol ar gyfer y rhaglen hon; yn lle hynny, bydd deilliannau cynnydd yn seiliedig ar gyrraedd targedau unigol yn gysylltiedig â pharatoi am fywyd fel oedolyn. Os ystyrir bod achrediad yn briodol i unigolyn, dylai hynny ategu ei dargedau a bod yn uniongyrchol gysylltiedig â'i gamau nesaf/gyrchfannau terfynol.

## Cyrchfannau Tebygol

Bydd dysgwyr yn gallu mynegi eu dewisiadau a datblygu sgiliau cyfathrebu sy'n gysylltiedig â'u perthnasoedd a rhyngweithio yn y gweithle. Bydd gan ddysgwyr sgiliau i wneud dewisiadau annibynnol ynghylch sut i ddefnyddio'u hamser. Drwy ddatblygu sgiliau ymarferol, bydd dysgwyr yn gallu cwblhau tasgau syml bob dydd yn y cartref gydag annibyniaeth gynyddol. Bydd dysgwyr yn datblygu sgiliau a fyddai'n berthnasol i wirfoddoli ac i gyflogaeth bosibl gyda chefnogaeth barhaus.

## Gofynion y rhaglen: Craidd

Mae'n debygol y bydd gan ddysgwyr sy'n defnyddio'r rhaglen hon broffiliau "pigog". Bydd eu galluoedd ar ystod o wahanol lefelau ac efallai y bydd ganddyn nhw sgiliau ar lefelau uwch ac is. Bydd y cwricwlwm yn canolbwyntio ar yr unigolyn gyda ffocws cryf ar asesiad cychwynnol i nodi targedau ar gyfer sgiliau a gwybodaeth, anghenion yn y dyfodol a chyfleoedd am ddilyniant.

Mae'r Craidd wedi'i seilio o amgylch y pedwar conglfaen a dylid ei gynllunio'n benodol i ddarparu gweithgareddau sy'n galluogi dysgwyr i ddatblygu sgiliau sy'n eu paratoi am fywyd yn y dyfodol. Rhaid iddo hefyd ganiatáu amser realistig i ennill y sgiliau hyn a'u hymwreiddio.

Bydd datblygu sgiliau cyfathrebu mynegiannol a derbyniol unigolion yn elfen Graidd o'r rhaglen. Bydd hefyd yn cynnwys datblygu sgiliau llythrennedd, rhifedd a llythrennedd digidol a gyflwynir yn ymarferol drwy'r pedwar conglfaen dysgu hyn.

## Gofynion y rhaglen: Profiad Cysylltiedig â Gwaith

Bydd Profiad Cysylltiedig â Gwaith yn digwydd mewn amgylchedd cefnogol sy'n cyd-fynd â diddordebau a dyheadau galwedigaethol y dysgwr. Gall cyfleoedd gynnwys partneriaethau â mentrau cymdeithasol lleol. Dylid teilwra tasgau gwaith yn unigol, yn

seiliedig ar asesiad trylwyr o alluoedd y dysgwr a dealltwriaeth o ofynion tebygol pob tasg.

Mae paratoi am brofiad gwaith wedi'i gynnwys yn elfen Graidd Cyflogadwyedd y cwricwlwm. Fodd bynnag, bydd ymweliadau blasu a pharatoadau wedi'u targedu ar gyfer lleoliadau penodol yn cael eu darparu drwy'r elfen Profiad Cysylltiedig â Gwaith.

Mae'n debygol y bydd angen cefnogaeth sylweddol ar gyfer profiad cysylltiedig â gwaith fel bo modd ymgysylltu'n llwyddiannus â pharhaus â chyflogaeth neu gyfle gwirfoddoli, yn enwedig yn ystod cyfnod cychwynnol y lleoliad. Mae'r gefnogaeth hon yn hanfodol i ddiogelu lles a diogelwch y dysgwr. Lle bo'n briodol, dylid dewis lleoliadau sydd â'r potensial i arwain at gyfleoedd cyflogaeth neu wirfoddoli yn y dyfodol.

## Gofynion y rhaglen: Cymwysterau neu Weithgareddau Dysgu Asesadwy Eraill

Mae'n annhebygol y bydd cymwysterau'n briodol i'r rhan fwyaf o ddysgwyr ar y Llwybr hwn. Os ystyrir bod cymhwyster yn briodol ac yn bwrpasol, dylai ategu targedau unigol y dysgwr a dylai cyswllt clir fod rhyngddo â'r deilliannau a fwriedir. Ni ddylid cynnwys cymwysterau yn y cwricwlwm i bob dysgwr cyn iddynt ddechrau ar eu cwrs, a chyn cwblhau asesiadau sylfaenol. Dylai pob targed gael ei lywio gan anghenion y dysgwr, ei CDU, a'i ddyheadau am y dyfodol, fel y nodir yn ei asesiad sylfaenol.

| | |
|---|---|
| Cyfanswm Oriau Contract dan Arweiniad ar gyfer y Rhaglen | 650 |

## C. Manyleb Rhaglen Llwybr 3

| | |
|---|---|
| Enw'r rhaglen | Llwybr 3 |
| Codau Rhaglen | 1401CXXB |
| Maes Sector Pwnc | Sylfeini ar gyfer Dysgu a Bywyd |

### Amlinelliad o bwrpas a deilliannau'r rhaglen

Bydd dysgwyr ar raglenni Llwybr 3 yn dod o ystod eang o gefndiroedd addysgol, gan gynnwys Unedau Cyfeirio Disgyblion (UCDau), lleoliadau addysg gartref, ysgol/coleg arbenigol annibynnol, a chanolfannau adnoddau arbenigol. Efallai fod rhai dysgwyr wedi gwrthod mynd i'r ysgol neu wedi profi anawsterau wrth gymryd rhan mewn amgylcheddau ysgol traddodiadol yn sgil anghenion cymdeithasol, emosiynol ac iechyd meddwl (SEMH). Efallai y bydd gan eraill anawsterau dysgu ac/neu anableddau, tra gallai rhai brofi anawsterau SEMH a wnaeth achosi oedi neu darfu ar ddatblygiad eu sgiliau. Efallai y bydd llawer o ddysgwyr heb ffynnu mewn lleoliadau academaidd, gan arwain at effaith ar eu hymddygiad, eu cyrhaeddiad, eu hunanhyder a'u cymhelliant cyffredinol a'u hagwedd at ddysgu. Mae'r ffactorau hyn yn rhwystrau sylweddol i fynediad at ddarpariaeth addysg bellach brif ffrwd.

Yn aml, bydd angen cymorth wedi'i dargedu ar ddysgwyr i ddatblygu'r gallu i hunanreoleiddio ac i feithrin a chynnal perthnasoedd cymdeithasol cadarnhaol. Mae amgylchedd anogol a chefnogol yn hanfodol i'w helpu i weithio tuag at eu nodau unigol a'r deilliannau a ddymunir.

Mae'r pedwar conglfaen dysgu yn darparu Craidd y rhaglen:

- Iechyd a Lles
- Cyflogadwyedd
- Byw'n Annibynnol
- Cynhwysiant Cymunedol

Mae'r cwricwlwm yn mabwysiadu dull ymarferol o ddatblygu a chyfnerthu sgiliau ym mhob un o'r meysydd hyn, gyda'r nod o baratoi dysgwyr am fywyd fel oedolyn.

Mae sgiliau cyfathrebu, llythrennedd, rhifedd a llythrennedd digidol yn rhan annatod o'r profiad dysgu. Mae cyfleoedd i ddatblygu ac ymarfer y sgiliau hyn wedi'u hymgorffori ym mhob un o'r pedwar conglfaen, gan sicrhau bod dysgwyr yn adeiladu ar y cymwyseddau sydd eu hangen i fod yn fwy annibynnol a chymryd rhan yn weithredol yn eu cymunedau.

Drwy astudio ar y rhaglen hon, bydd dysgwyr yn:

- Cyfrannu at gynllunio rhaglen unigol iddynt hwy eu hunain sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn, gan nodi eu cryfderau presennol a meysydd lle gellir datblygu sgiliau perthnasol o fewn fframwaith y pedwar conglfaen.
- Cytuno ar dargedau unigol realistig ar gyfer eu rhaglen ddysgu.
- Cymryd rhan mewn gweithgareddau dysgu ymarferol ym mhob maes o fewn y fframwaith pedwar conglfaen.
- Gweithio i wneud cynnydd ar eu targedau unigol drwy weithgareddau dysgu sy'n berthnasol i'w bywydau presennol, wrth bontio i fod yn oedolyn, ac i'w dyheadau am y dyfodol.
- Gweithio i wneud cynnydd ar dargedau unigol sy'n datblygu ac yn gwella sgiliau cyfathrebu, llythrennedd, rhifedd a llythrennedd digidol drwy weithgareddau sydd wedi'u hymwreiddio o fewn y fframwaith pedwar conglfaen.
- Cymryd rhan mewn adolygiadau o'u dysgu sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn, gan nodi'r cynnydd a wnaed yn erbyn targedau unigol a chytuno ar y camau nesaf. Dylid defnyddio adolygiadau'r CDU i gefnogi'r broses hon.

Er y gallai rhai dysgwyr elwa ar gymwysterau yn rhan o'u darpariaeth, dylid ystyried hyn fel eithriad yn hytrach na'r norm. Ni ddylid ymgorffori cymwysterau mewn cynlluniau cwricwlwm nes bod dysgwyr wedi cwblhau'r broses asesu sylfaenol ac wedi cyfleu eu dyheadau hirdymor yn glir. Dylai unrhyw gymwysterau a gynigir gyd-fynd yn agos â nodau unigol y dysgwr a chefnogi dilyniant ystyrlon.

## Cyrchfannau Tebygol

Bydd y sgiliau hyn yn eu galluogi i wneud dewisiadau hyderus a deallus am eu camau nesaf. Gall llwybrau dilyniant gynnwys addysg bellach, interniaethau â chymorth, prentisiaethau â chymorth, cyflogaeth â thâl gyda chymorth, neu gyfleoedd gwirfoddoli.

Bydd dysgwyr yn cael y sgiliau i hunanreoleiddio eu hemosiynau, gan eu galluogi i reoli straen ac ymdawelu'n fwy llwyddiannus wrth wynebu sefyllfaoedd heriol. Byddant hefyd yn gallu sylwi pryd y mae angen cymorth arnynt gan eraill ac adnabod gwasanaethau cymorth yn eu cymuned leol y gallant gael mynediad atynt wrth symud ymlaen i fyw'n annibynnol.

Bydd dysgwyr wedi datblygu sgiliau i'w galluogi i reoli eu cyllid personol a rheoli eu cartref, gan gefnogi mwy o ymreolaeth yn eu bywyd bob dydd. Byddant yn cael eu grymuso i wneud dewisiadau deallus priodol am eu perthnasoedd personol a deall pryd a sut i ganfod cefnogaeth, a derbyn cefnogaeth, lle bo angen.

Yn ogystal, bydd dysgwyr wedi datblygu ystod o sgiliau trosglwyddadwy sy'n berthnasol i'r gweithle ac i astudiaeth bellach. Bydd y sgiliau hyn yn eu galluogi i wneud dewisiadau hyderus a deallus am eu camau nesaf. Gall llwybrau dilyniant gynnwys dysgu pellach, interniaethau â chymorth, prentisiaethau â chymorth, cyflogaeth â thâl gyda chymorth, neu gyfleoedd gwirfoddoli.

## Gofynion y rhaglen: Craidd

Mae'n debygol y bydd gan ddysgwyr sy'n defnyddio'r rhaglen hon broffiliau "pigog", gyda galluoedd sy'n amrywio'n sylweddol ar draws gwahanol feysydd. Gallant ddangos cryfderau mewn rhai sgiliau tra bod angen cefnogaeth sylweddol arnynt mewn eraill. Bydd y cwricwlwm yn canolbwyntio ar yr unigolyn gyda ffocws cryf ar asesiad cychwynnol i nodi sgiliau cyfredol pob dysgwr, targedau ar gyfer sgiliau a gwybodaeth, anghenion yn y dyfodol a chyfleoedd am ddilyniant.

Mae Craidd y rhaglen wedi'i strwythuro o amgylch y pedwar conglfaen a dylid ei gynllunio'n bwrpasol i gynnig gweithgareddau sy'n cefnogi datblygiad sgiliau sy'n hanfodol ar gyfer byw yn y dyfodol. Rhaid i'r cwricwlwm roi digon o amser i ddysgwyr ennill y sgiliau hyn yn realistig a'u hymwreiddio'n effeithiol.

Ffocws allweddol y Craidd fydd cyfathrebu, ochr yn ochr â datblygu sgiliau llythrennedd, rhifedd a llythrennedd digidol. Dylai'r cymwyseddau hyn gael eu hymgorffori mewn ffyrdd ymarferol ac ystyrlon ar draws y pedwar conglfaen. Mae Dysgwyr ar raglenni Llwybr 3 yn fwy tebygol o elwa ar achrediad neu gymwysterau yn y meysydd hyn. Lle cyflwynir sgiliau fel pwnc ar wahân, rhaid rhoi cyd-destun i'r addysgu i sicrhau ei fod yn berthnasol ac wedi'i bersonoli i bob dysgwr.

## Gofynion y rhaglen: Profiad Cysylltiedig â Gwaith

Mae Profiad Cysylltiedig â Gwaith yn elfen bwysig i ddysgwyr ar Lwybr 3, gan fod cyflogaeth neu ddilyniant galwedigaethol yn gyrchfan debygol i'r grŵp hwn. Mewn cyferbyniad â Llwybr 2, mae Profiad Cysylltiedig â Gwaith yn chwarae rhan fwy canolog er mwyn paratoi dysgwyr am eu dyfodol.

Dylai Profiad Cysylltiedig â Gwaith ddigwydd mewn amgylchedd cefnogol sy'n cyd-fynd â diddordebau a dyheadau galwedigaethol y dysgwr. Gall hyn gynnwys partneriaethau â mentrau cymdeithasol lleol. Dylid teilwra tasgau gwaith i'r unigolyn, yn seiliedig ar asesiad trylwyr o alluoedd y dysgwr a dealltwriaeth o'r gofynion sy'n gysylltiedig â phob rôl.

Er bod paratoadau cyffredinol am brofiad gwaith wedi'u hymgorffori yn yr elfen Graidd Cyflogadwyedd, bydd Profiad Cysylltiedig â Gwaith yn cynnwys ymweliadau blasu a pharatoadau wedi'u targedu ar gyfer lleoliadau penodol.

Mae'n debygol y bydd angen cymorth parhaus ar gyfer profiad gwaith i alluogi lleoliad cyflogaeth llwyddiannus a pharhaus, yn enwedig yn ystod y cyfnod cychwynnol. Mae'r cymorth hwn yn hanfodol er mwyn cynnal diogelwch a lles. Lle bynnag y bo modd, dylid dewis lleoliadau gyda'r bwriad o symud ymlaen i gyflogaeth yn y dyfodol neu lwybr galwedigaethol penodol.

## Gofynion y rhaglen: Cymwysterau neu Weithgareddau Dysgu Asesadwy Eraill

Efallai y bydd cymwysterau'n fwy priodol i ddysgwyr ar Lwybr 3. Fodd bynnag, yn yr un modd â Llwybrau eraill, dylai hyn fod drwy eithriad yn unig, ac fel arfer ni ddylid cymwysterau mewn cynlluniau cwricwlwm cyn i ddysgwyr ymgysylltu â'r broses asesu

sylfaenol a chyfleu eu dyheadau hirdymor. Dylai cymwysterau neu weithgareddau dysgu asesadwy eraill ychwanegu gwerth at ddatblygiad y dysgwyr unigol, gan eu helpu i gyflawni eu dyheadau hirdymor

Er y gellir cynnwys cymwysterau yn rhan o'r Llwybr hwn, dylid cadw'r ffocws ar ddarparu gweithgareddau sy'n adlewyrchu anghenion y dysgwr unigol. Wrth ystyried cymwysterau, neu unedau asesadwy eraill, rhaid i Sefydliadau Addysg Bellach ystyried y gwerth ychwanegol i'r dysgwr ac a yw'n angenrheidiol i gyrraedd eu targedau.

| | |
|---|---|
| Cyfanswm Oriau Contract dan Arweiniad ar gyfer y Rhaglen | 650 |

***D. Manyleb Rhaglen Llwybr 4***

| | |
|---|---|
| Enw'r rhaglen | Llwybr 4 |
| Codau Rhaglen | 1401DXXB |
| Maes Sector Pwnc | Sylfeini ar gyfer Dysgu a Bywyd |

**Amlinelliad o bwrpas a deilliannau'r rhaglen**

Gall dysgwyr ar Lwybr 4 symud ymlaen o Lwybr 3 neu symud ymlaen yn syth o'r ysgol, o addysg heblaw yn yr ysgol, o addysg ddewisol yn y cartref, o ysgol/coleg arbenigol annibynnol, neu mae'n bosib eu bod heb fod mewn addysg, cyflogaeth na hyfforddiant (NEET), lle bo cysylltiadau paratoadol wedi'u sefydlu i sicrhau eu bod yn barod am y rhaglen hon. I'r rhan fwyaf o ddysgwyr, dyma fydd eu blwyddyn olaf yn y coleg cyn symud i gyflogaeth. Bydd angen cefnogaeth sylweddol ar bob dysgwr ar y llwybr hwn i'w galluogi i gael a chadw cyflogaeth â thâl yn llwyddiannus. Fel arfer, dylid cofnodi asesiad o angen a thargedau cyflogadwyedd cysylltiedig yn CDU y dysgwr.

I gael mynediad i Lwybr 4, dylai dysgwyr ddangos dealltwriaeth glir o ofynion byd gwaith a dangos tystiolaeth o sgiliau teithio annibynnol. Yn hollbwysig, rhaid iddynt fynegi awydd gwirioneddol i ymwneud â chyflogaeth ar ôl cwblhau'r rhaglen. Ni ddisgwylir i ddysgwyr o raglenni prif ffrwd gael mynediad i Lwybr 4 onid oes angen penodol wedi'i nodi. Rhaid trafod unrhyw achosion o'r fath â Medr er mwyn helpu i lywio penderfyniadau polisi yn y dyfodol. Ceir ffurflen atgyfeirio i'r diben hwn yn Atodiad E.

Mae Llwybr 4 wedi'i gynllunio i gefnogi dysgwyr i gael cyflogaeth gynaliadwy â thâl drwy gyfuno dysgu seiliedig ar waith â rhaglen astudio bersonol sy'n cynnwys elfennau o'r pedwar conglfaen. Mae'r cwricwlwm yn canolbwyntio ar roi'r sgiliau a'r cymwysterau perthnasol sydd eu hangen ar ddysgwyr er mwyn llwyddo mewn maes galwedigaethol o'u dewis.

Mae cyfathrebu, llythrennedd, rhifedd a llythrennedd digidol yn parhau i fod yn rhan annatod o'r profiad dysgu. Dylai cyfleoedd i ddatblygu ac ymarfer y sgiliau hyn fod yn berthnasol i'w maes gwaith dewisol ac wedi'u hintegreiddio i'w hyfforddiant cysylltiedig â gwaith.

Nod Llwybr 4 yw paratoi dysgwyr am gyflogaeth â thâl drwy:

- Eu helpu i ddatblygu sgiliau a werthfawrogir gan gyflogwyr.
- Eu galluogi i ddangos eu gwerth yn y gweithle.
- Datblygu hyder yn eu gallu eu hunain i berfformio'n llwyddiannus yn y gwaith.

Drwy astudio ar y rhaglen hon bydd dysgwyr yn:

- Cyfrannu at gynllunio rhaglen unigol iddynt hwy eu hunain sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn, gan nodi eu cryfderau presennol a meysydd lle gellir datblygu sgiliau perthnasol er mwyn llwyddo i gael swydd gyflogedig.
- Cytuno ar ddeilliannau a thargedau unigol realistig ar gyfer eu rhaglen ddysgu.
- Gwneud gwaith ystyrlon am fwyafrif sylweddol o'r amser yn eiddo'r cyflogwr, lle bydd disgwyl iddynt gydymffurfio ag amodau gwaith go iawn.
- Gweithio i wneud cynnydd ar dargedau unigol sy'n datblygu ac yn gwella eu sgiliau cyflogadwyedd, ynghyd â'u sgiliau cyfathrebu, llythrennedd, rhifedd a llythrennedd digidol, fel eu bod wedi'u paratoi'n well am waith.
- Cael y cyfle i ymarfer a gwella eu sgiliau annibyniaeth gan gynnwys, lle bo'n briodol, teithio'n annibynnol yn ôl ac ymlaen i'r gweithle.
- Ennill profiad i gryfhau eu CV gan ddangos eu sgiliau a'u parodrwydd i weithio.
- Cymryd rhan mewn adolygiadau o'u dysgu sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn, gan nodi'r cynnydd a wnaed. Dylid defnyddio adolygiadau'r CDU i gefnogi'r broses hon.

Rhaid sicrhau ansawdd y ddarpariaeth drwy fframwaith RARPA, neu ddull tebyg, gyda mesurau perfformiad sy'n wahanol i Lwybrau eraill i adlewyrchu natur unigryw darpariaeth Llwybr 4.

## Cyrchfannau Tebygol

Bydd dysgwyr ar Lwybr 4 wedi datblygu sgiliau mewn rolau swydd penodol y dylid bod modd eu trosglwyddo i swyddi eraill yn eu cymuned leol. Bydd ganddyn nhw sgiliau cryfach sy'n gysylltiedig ag annibyniaeth i'w galluogi i gael mynediad at swydd gyflogedig a chadw'r swydd honno. Byddant wedi datblygu sgiliau cyfathrebu a datrys problemau wedi'u gosod yng nghyd-destun y gweithle.

Y canlyniad delfrydol i ddysgwr Llwybr 4 fydd cael cynnig cyflogaeth â thâl, o bosib gan y cyflogwr a gynhaliodd leoliad gwaith y dysgwr. Os nad oes modd i'r sefydliad a gynhaliodd y lleoliad gynnig swydd i'r dysgwr, dylai SABau fod yn helpu'r dysgwr i wneud cais am gyfleoedd eraill ar ddiwedd ei raglen.Gallai hyn gynnwys cefnogaeth i ddefnyddio gwefannau chwilio am swyddi, ymweliadau â'r ganolfan waith/Gyrfa Cymru a sgiliau cyfweliad.

## Gofynion y rhaglen: Craidd

### Hyfforddiant yn y gwaith

Bydd yn rhaid i'r dysgwr dreulio'r rhan fwyaf o'i amser ar safle'r cyflogwr, lle bydda yn gwneud gwaith ystyrlon ac yn cadw at amodau gwaith go iawn. Dylai'r interniaeth neu'r elfen seiliedig ar waith ddarparu hyfforddiant strwythuredig yn y gwaith, gyda thasgau wedi'u rhannu'n gamau haws er mwyn cefnogi'r dysgu. Gall hyfforddwyr swydd ddefnyddio'r dull addysgu systematig er mwyn helpu dysgwyr i ymgymryd â chyfrifoldebau newydd yn llwyddiannus. Rhaid i hyfforddwyr swydd sy'n darparu hyfforddiant ar Lwybr 4 fod â chymwysterau yn unol â safonau cenedlaethol[2].

[2] Cydnabyddir arfer gorau ar gyfer hyfforddwyr swydd gan Gymdeithas Prydain ar gyfer Cyflogaeth â Chymorth (BASE), drwy Dystysgrif Lefel 3 ar gyfer Ymarferwyr Cyflogaeth â Chymorth. Rhaid iddynt hefyd ddilyn y Safonau Galwedigaethol Cenedlaethol a'rFframwaith Ansawdd.

Gall yr amser a dreulir yn y gweithle amrywio yn dibynnu ar anghenion unigol y dysgwr. Efallai na fydd rhai dysgwyr, yn enwedig rhai â heriau'n gysylltiedig â iechyd, yn gallu treulio cyfnodau hir yn y gwaith. Er mwyn darparu ar gyfer hyn, dylid cadw gofynion y rhaglen yn hyblyg. Gall darparwyr weithredu mynediad graddol i'r gweithle, gan ddarparu mwyafrif yr oriau coleg neu ddarpariaeth grŵp ar y dechrau er mwyn paratoi dysgwyr i bontio'n llwyddiannus i'w hinterniaeth.

### Cymorth yn y swydd

Bydd lefelau cymorth yn amrywio yn ôl anghenion unigol pob dysgwr. Bydd angen mwy o gefnogaeth ar y rhan fwyaf o ddysgwyr ar ddechrau eu lleoliad er mwyn sicrhau profiad llwyddiannus a pharhaus, gan ddiogelu eu lles a'u diogelwch ar yr un pryd. Dylai cymorth yn y gwaith ganolbwyntio ar helpu dysgwyr i ddatblygu strategaethau ar gyfer annibyniaeth yn y gweithle. Lle bo'n briodol, dylid lleihau cefnogaeth yn raddol wrth i ddysgwyr ennill hyder a chymhwysedd.

### Hyfforddiant i ffwrdd o'r gwaith

Bydd dysgwyr hefyd yn cymryd rhan mewn hyfforddiant i ffwrdd o'r gwaith, a ddylai fod â'i wreiddiau yn agweddau perthnasol y pedwar conglfaen dysgu, gyda phwyslais cryf ar gyflogadwyedd a'r sgiliau ehangach sydd eu hangen ar gyfer gwaith annibynnol. Dylai'r hyfforddiant hwn ategu'r dysgu yn y gweithle a bod wedi'i deilwra i gyd-fynd ag anghenion a dyheadau penodol pob dysgwr.

Gall hyfforddiant i ffwrdd o'r gwaith gynnwys meysydd dysgu galwedigaethol penodol a dyfarniadau galwedigaethol perthnasol; er enghraifft, mewn hylendid bwyd neu iechyd a diogelwch. Er bod y pedwar conglfaen yn parhau i fod yn sail i Lwybr 4, dylai dysgwyr fod wedi datblygu sgiliau sylfaenol cryf yn y rhan fwyaf o feysydd eisoes. Dylai'r ffocws o hyn allan fod ar gyflogadwyedd a'r modd y mae pob conglfaen yn gysylltiedig â'r byd gwaith - er enghraifft, cysylltu'r gonglfaen Iechyd a Lles a chynnal cydbwysedd bywyd/gwaith iach.

Mae'r elfen hon o'r rhaglen hefyd yn cynnig cyfleoedd i ddysgwyr weithio ar y cyd, meithrin perthnasoedd â chyfoedion, a rhoi cefnogaeth y naill i'r llall. Mae dysgu mewn grŵp yn helpu i feithrin ymdeimlad o berthyn ac yn lleihau'r ymdeimlad o fod wedi'u hynysu yn eu lleoliadau gwaith unigol.

## Gofynion y rhaglen: Cymwysterau neu Weithgareddau Dysgu Asesadwy Eraill

Gall achrediad a chymwysterau fod yn briodol i rai dysgwyr ar Lwybr 4. Er y dylid parhau i ganolbwyntio ar gynnydd yn erbyn targedau unigol mewn asesiadau parhaus, gellir ystyried achrediad ffurfiol - drwy unedau neu gymwysterau - os yw'n cefnogi deilliannau cyflogaeth a nodau personol y dysgwr, a'i anghenion o ran dilyniant. Dim ond pan fyddant yn hanfodol i alluogi'r dysgwr i gael a chadw swydd gyflogedig y dylid cynnwys cymwysterau.

| Cyfanswm Oriau Contract dan Arweiniad ar gyfer y Rhaglen | 650 |
| --- | --- |

### *E. Dysgwyr o Raglenni Prif Ffrwd sy'n cael Mynediad i ddarpariaeth Llwybr 4*

Medr
Y Comisiwn Addysg Drydyddol ac Ymchwil
Commission for Tertiary Education and Research

Ariennir gan Llywodraeth Cymru
Funded by Welsh Government

| | |
|---|---|
| Sefydliad | |
| Enw cyswllt a chyfeiriad e-bost y sefydliad | |
| Nifer y dysgwyr sy'n cael mynediad i Lwybr 4 o ddarpariaeth Brif Ffrwd | |
| Dysgwyr blwyddyn academaidd yn bwriadu dechrau ar Lwybr 4 | |

| Rhowch yr holl resymau pam bod dysgwyr yn cael mynediad i Lwybr 4 o'r Brif Ffrwd |
|---|
| |

| Amlinellwch gyrchfannau terfynol y dysgwyr hyn |
|---|
| |

| Eglurwch y ddarpariaeth arall a ystyriwyd a pham nad oedd hon yn briodol |
|---|
| |

Medr

Y Comisiwn Addysg Drydyddol ac Ymchwil
Commission for Tertiary Education and Research

www.medr.cymru

2 Cwr y Ddinas
Stryd Tyndall
Caerdydd
CF10 4BZ

2 Capital Quarter
Tyndall Street
Cardiff
CF10 4BZ

Noddir gan
**Lywodraeth Cymru**
Sponsored by
**Welsh Government**